estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy'n agored i niwed

Ebrill 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Deilliannau dysgwyr** | **6** |
| **Darpariaeth i ddysgwyr** | **12** |
| Cynllunio’r cwricwlwm | 12 |
| **Cymorth i ddysgwyr** | **15** |
| Cymorth personol | 15 |
| Anogwyr dysgu | 16 |
| Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd | 16 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **18** |
| Ysgolion a cholegau | 18 |
| Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol | 18 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **20** |
| **Geirfa** | **21** |
| **Cyfeiriadau** | **23** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2016-2017. Mae’r adroddiad yn darparu tystiolaeth sy’n ymwneud ag argymhelliad 8 adolygiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o’r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009) yn 2012. Mae argymhelliad 8 yn datgan:

*‘Dylai Llywodraeth Cymru arfarnu effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar ddysgwyr sy’n agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr sy’n agored i niwed mewn addysg bellach.’* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012, tud. 41)

Ar gyfer yr adroddiad cylch gwaith hwn, mae’r term ‘dysgwyr sy’n agored i niwed’ yn golygu dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, plant sy’n derbyn gofal (PDG), a dysgwyr sy’n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

Mae’r adroddiad yn crynhoi tystiolaeth a gasglwyd o arolygiadau ac arolygon thematig dros y tair blynedd ddiwethaf. Fe wnaeth cyfweliadau â phob un o’r pedwar consortiwm rhanbarthol a gyda phedwar awdurdod lleol gyfrannu at sail y dystiolaeth hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr atodiad.

## Cefndir

Nod Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009[1] (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009) yw sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn gallu elwa ar gwricwlwm eang a chytbwys a gwasanaethau cymorth dysgu a fydd yn eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Cyflwynwyd y safonau o dan y Mesur yn raddol i sicrhau ei fod wedi cael ei roi ar waith yn llawn erbyn mis Medi 2012.

Mae gan ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach ddyletswydd statudol o dan y Mesur i ehangu dewis a darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed. Gwnaeth y Mesur fframwaith llwybrau dysgu unigol yn statudol trwy’r Polisi Llwybrau Dysgu 14-19. Mae’r fframwaith hwn yn cynnwys chwe elfen allweddol o dan y ddwy agwedd unigryw ar ddarpariaeth i ddysgwyr a chymorth i ddysgwyr.

Mae darpariaeth i ddysgwyr yn cynnwys tair elfen, sef:

- llwybr dysgu unigol – i fodloni anghenion pob unigolyn, gan gynnwys elfennau ffurfiol, elfennau nad ydynt yn ffurfiol ac elfennau anffurfiol

[1] Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009: Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr a Llwybr Dysgu, Dogfen Ganllawiau

- dewis a hyblygrwydd ehangach o ran cyrsiau – gan arwain at gymwysterau o gwricwlwm lleol
- dysgu ehangach o’r craidd dysgu – gan gynnwys medrau, gwybodaeth, agweddau, gwerthoedd a phrofiadau y bydd eu hangen ar yr holl bobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed, beth bynnag fo’u llwybr

Mae cymorth i ddysgwyr yn cynnwys tair elfen, sef:

- gallu manteisio ar anogwr dysgu
- cyfle i gael cymorth personol
- cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd

Mae gan yr holl ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig a gynhelir ac mewn colegau addysg bellach, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yr un hawl i’r fframwaith llwybrau dysgu unigol. Fodd bynnag, nid yw’n eglur yn y Mesur ynglŷn â hawl dysgwyr mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), i’r fframwaith llwybrau dysgu. Caiff dysgwyr mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol eu datgymhwyso o’r cwricwlwm cenedlaethol.

Yn 2012, dair blynedd ar ôl cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009) am y tro cyntaf, ond cyn ei roi ar waith yn llawn, cynhaliwyd adolygiad o’r Mesur gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012). Canfu’r adolygiad fod tystiolaeth yn dangos bod y Polisi Llwybr Dysgu 14-19, ynghyd â’r Mesur, wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i’r dewis o bynciau sydd ar gael i ddysgwyr, a lefel y cymorth a gawsant.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae bron pob ysgol yn cynllunio cwricwlwm sy’n bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009). Fodd bynnag, mae’r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd yn fwy cyfyngedig nag ydoedd ddwy flynedd yn ôl. Mae hyn o ganlyniad i lawer o ysgolion yn lleihau nifer y pynciau opsiwn i ganiatáu amser cwricwlwm ychwanegol ar gyfer y cymhwyster mathemateg TGAU newydd a thystysgrif her medrau mwy helaeth (fel rhan o Fagloriaeth Cymru), ac i gynyddu’r pwyslais ar Saesneg/Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth TGAU o ganlyniad i newidiadau i fesurau perfformiad. Mewn rhai ysgolion, lleihawyd y dewis o gyrsiau galwedigaethol hefyd ac mae hyn yn effeithio ar briodoldeb y cwricwlwm sydd ar gael i lawer o ddysgwyr sy’n agored i niwed.

2 Er bod dysgwyr sy’n agored i niwed yn cael yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm, mae ysgolion yn cofrestru dysgwyr sy’n agored i niwed ar gyfer llai o gymwysterau na’u cyfoedion, ar gyfartaledd. Caiff dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig eu cofrestru ar gyfer dau gwrs TGAU yn llai ar gyfartaledd na dysgwyr nad oes ganddynt angen addysgol arbennig neu nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

3 Ers cyflwyno’r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), mae safonau a gyflawnir gan ddysgwyr sy’n agored i niwed yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion ac mewn colegau addysg bellach wedi gwella ar y cyfan. Bu gwelliant yng nghyfran y dysgwyr sy’n agored i niwed sy’n cyflawni dangosyddion perfformiad cymhwyster allweddol. Fodd bynnag, yn 2017, bu gostyngiad yng nghyfran y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig sy’n cyflawni trothwy lefel 2. Nid yw’r gostyngiad mor nodedig yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg. Gallai’r gostyngiad yn nhrothwy lefel 2 fod o ganlyniad i’r newid i fesurau perfformiad lle nad yw cymwysterau medrau allweddol yn cyfrif fel rhan o drothwy lefel 2 mwyach. Nid yw’r bwlch mewn cyflawniad rhwng dysgwyr sy’n agored i niwed a’u cyfoedion mewn ysgolion a cholegau addysg bellach wedi lleihau’n sylweddol ar gyfer y dangosyddion allweddol hyn, ac mae’n parhau i fod yn rhy eang.

4 Bron ym mhob coleg, mae arweinwyr yn cynllunio’r cwricwlwm yn dda ac yn cynnig ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol ar lefelau sy’n rhoi hyblygrwydd a dewis i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae nifer y cyrsiau lefel 1 a gynigir gan golegau yn gostwng. Mae hyn o ganlyniad i bwyslais cynyddol ar gyflwyno cymwysterau lefel 3. Mae hyn yn effeithio ar rai dysgwyr sy’n agored i niwed sy’n dibynnu ar gyrsiau lefel 1 ar gyfer mynd ymlaen i ddysgu ymhellach ar lefel 2 ac yn uwch. Mae rhai colegau’n ailgyfeirio dysgwyr lefel mynediad a lefel 1 tuag at ddarpariaeth dysgu yn y gwaith i leihau’r effaith hon.

5 Mae rhai ysgolion, lle na all y cwricwlwm fodloni anghenion dysgwyr unigol sy’n agored i niwed, yn cydweithio’n dda â cholegau addysg bellach a darparwyr eraill i greu llwybrau dysgu pwrpasol ac ehangu’r dewis o bynciau sydd ar gael i ddysgwyr. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw ysgolion yn hyrwyddo ystod lawn y cyrsiau technegol neu alwedigaethol sydd ar gael mewn colegau addysg bellach neu ddarparwyr eraill ymhlith yr holl ddysgwyr.

6 Mae ansawdd cymorth personol mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn dda ar y cyfan ac mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o strategaethau ymyrraeth sy'n eu helpu i gyflawni deilliannau llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn ymgysylltu'n fwy â'u dysgu ac mae eu cyfraddau presenoldeb wedi gwella, er bod presenoldeb dysgwyr sy'n agored i niwed yn parhau i fod yn rhy isel ar y cyfan. Pan fydd cymorth ychwanegol yn llai effeithiol, mae hyn yn aml o ganlyniad i systemau olrhain a nodi gwael yn hytrach nag ansawdd y cymorth. Mewn ysgolion a cholegau addysg bellach, mae'r cymorth a ddarperir gan anogwyr dysgu yn gyffredinol effeithiol ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, bu gostyngiad cyson yn y cymorth dysgu sydd ar gael a ddarperir gan anogwyr dysgu o ganlyniad i ostyngiadau mewn cyllid.

7 Mae effeithiolrwydd y cyngor a'r arweiniad ar yrfaoedd yn amrywio gormod rhwng ysgolion. Mewn tua hanner yr ysgolion, caiff cyfweliadau gyrfaoedd unigol gan Gyrfa Cymru eu darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn unig, neu ar gyfer y rheiny y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio ag ymgymryd ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n darparu ystod eang o gyngor ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys gwybodaeth am brentisiaethau, er enghraifft. Yn aml, mae hyn am nad yw athrawon yn gwybod digon am y llwybr hwn. I rai dysgwyr, caiff hyn effaith niweidiol ar eu gallu i ddewis opsiynau sy'n bodloni eu dyheadau at y dyfodol.

8 Mae mwyafrif yr ysgolion a'r holl golegau yn arfarnu data perfformiad ac yn monitro cynnydd dysgwyr unigol. Er enghraifft, mae colegau'n defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) i nodi dysgwyr o ardaloedd difreintiedig a mesur eu cynnydd yn erbyn eu cyfoedion.

9 Mae awdurdodau lleol yn comisiynu consortia rhanbarthol i ddarparu cymorth a her i ysgolion trwy waith yr ymgynghorwyr her. Er enghraifft, mae ymgynghorwyr her yn monitro'r modd y mae ysgolion yn defnyddio grantiau fel y grant datblygu disgyblion a'r grant gwella addysg. Yn ddiweddar, mae consortia rhanbarthol wedi penodi swyddogion sydd â chyfrifoldeb am wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae prosesau consortia rhanbarthol ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr sy'n agored i niwed ac adrodd am y canfyddiadau i'r awdurdod lleol yn llai sefydledig. At ei gilydd, mae rôl y consortia rhanbarthol mewn cynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol o ran dysgwyr sy'n agored i niwed yn amrywiol, ac nid oes arfer gyffredin na chyson wedi'i sefydlu.

10 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn olrhain cynnydd dysgwyr sy'n derbyn gofal yn ganolog ac mae ganddynt brosesau cadarn i fonitro eu cynnydd trwy gydlynwyr plant sy'n derbyn gofal neu arweinwyr cyflawni. Fodd bynnag, mae'r arfer o olrhain rhai dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir, yn llai effeithiol.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion, colegau addysg bellach, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wella cyrhaeddiad dysgwyr sy’n agored i niwed fel ei fod yn cyd-fynd yn fwy â’u cyfoedion, trwy:**

A1 Olrhain a monitro cyflawniadau dysgwyr sy’n agored i niwed yn agosach, a dadansoddi data ar grwpiau o ddysgwyr sy’n agored i niwed yn well

A2 Gwella eu presenoldeb a sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar gymorth targedig

A3 Arfarnu’r cwricwlwm i ystyried i ba raddau y mae’n bodloni anghenion dysgwyr sy’n agored i niwed ac yn cynnig cyfleoedd iddynt ennill cymwysterau priodol

## Deilliannau dysgwyr

11 Ers cyflwyno’r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), mae safonau a gyflawnir gan ddysgwyr sy’n agored i niwed yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion ac mewn colegau addysg bellach wedi gwella ar y cyfan. Bu gwelliant yng nghyfran y dysgwyr sy’n agored i niwed sy’n cyflawni dangosyddion perfformiad cymhwyster allweddol. Fodd bynnag, yn 2017, bu gostyngiad yng nghyfran y dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a’r dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni trothwy lefel 2 mewn ysgolion. Gallai hyn fod o ganlyniad i’r newid i fesurau perfformiad lle nad yw cymwysterau medrau allweddol yn cyfrif fel rhan o drothwy lefel 2 mwyach. Cyn 2017, gallai cymwysterau medrau allweddol gyfrannu hyd at 90% o drothwy lefel 2. Gallai dysgwyr gyflawni trothwy lefel 2 trwy ennill chwech o gymwysterau medrau allweddol ac un cymhwyster arall yn unig ar lefel 2.

12 Mae dysgwyr mewn ysgolion a cholegau addysg bellach sy’n wynebu’r rhwystrau mwyaf rhag dysgu wedi elwa ar gyflwyno’r fframwaith llwybrau dysgu. Yn gyffredinol, maent wedi ymgysylltu’n fwy ac mae eu cyfraddau presenoldeb wedi gwella. Mewn ysgolion uwchradd, er 2013, mae presenoldeb dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi gwella’n gyflymach na phresenoldeb cyfoedion eraill. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae cyfradd presenoldeb tua 37% o ddysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4 yn llai na 90% (14% ar gyfer dysgwyr eraill) a dim ond 37% o ddysgwyr sy’n mynychu am fwy na 95% o’r amser (62% ar gyfer dysgwyr eraill). Mae hyn yn destun pryder gan fod perthynas agos rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad.


**Ffigur 1: Canran dysgwyr cyfnod allweddol 4 y mae eu cyfradd presenoldeb islaw 90% ac uwchlaw 95% ar gyfer dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim, 2013-2017**

| | Presenoldeb Islaw 90% | | Presenoldeb Uwchlaw 95% | |
|---|---|---|---|---|
| | Ddim yn gymwys am PYDd | Yn gymwys am PYDd | Ddim yn gymwys am PYDd | Yn gymwys am PYDd |
| 2013 | 21% | 48% | 53% | 28% |
| 2014 | 17% | 43% | 58% | 33% |
| 2015 | 16% | 41% | 60% | 34% |
| 2016 | 14% | 38% | 62% | 36% |
| 2017 | 14% | 37% | 62% | 37% |

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru (2017b & 2017c)


13 Mewn ysgolion y barnwyd eu bod yn rhagorol neu’n dda am eu perfformiad presennol, mae dysgwyr sy’n agored i niwed yn elwa ar y cymorth a ddarperir gan yr ysgol. Mae safonau a gyflawnir gan y grŵp hwn o ddysgwyr yn cyd-fynd yn gyson â chyflawniad cyfartalog y teulu neu’r cyflawniad cyfartalog cenedlaethol, neu’n uwch, ar gyfer dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim.

**Ffigur 2: Canran dysgwyr cyfnod allweddol 4 yn cyflawni trothwy lefel 2 yn ôl PYDd, 2013-2017**[2]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017d)

**Ffigur 3: Canran dysgwyr cyfnod allweddol 4 yn cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg yn ôl PYDd, 2013-2017**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017d)


14 Mae'r duedd yn ffigur 2 yn dangos y bu cynnydd cyson yng nghyflawniadau'r holl ddysgwyr rhwng 2013 a 2016. Mae'r cynnydd hwn yn uwch ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, gyda data yn dangos gwelliant o 13.8 pwynt

[2] Gwnaed sawl newid allweddol i fesurau perfformiad cyfnod allweddol 4 ar gyfer 2016-2017, sy'n effeithio ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

canran yn nhrothwy lefel 2 ar draws y tair blynedd. Mae trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg wedi gwella hefyd, gyda chynnydd o 9.8 pwynt canran. Yn 2017, bu gostyngiad o dros 30 pwynt canran yn nhrothwy lefel 2 ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Yn 2017, bu gostyngiad o wyth pwynt canran yng nghyfran y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg. Nid yw'r gostyngiad hwn mewn perfformiad ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg, mor nodedig â'r gostyngiad ar gyfer trothwy lefel 2. Mae'n adlewyrchu ffocws cynyddol ysgolion ar wella Saesneg/Cymraeg a mathemateg trwy ddarparu amser cwricwlwm ychwanegol a gwaith ymyrraeth dargedig yng nghyfnod allweddol 4.

15 Lleihaodd y bwlch rhwng cyflawniadau dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a chyflawniadau eu cyfoedion rhwng 2013 a 2016. Bu'r gwelliant mwyaf yn nhrothwy lefel 2, lle roedd y bwlch wedi lleihau o 27.1 pwynt canran i 17.4 pwynt canran. Fodd bynnag, yn 2017, ehangodd y bwlch i 32.3 pwynt canran o ganlyniad i ostyngiad ym mherfformiad dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch yng nghyflawniad trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, yn dangos patrwm tebyg, gyda gwelliannau llai rhwng 2013 a 2016 ac, yn 2017, gwahaniaeth tebyg o 32.4 pwynt canran rhwng nifer y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyflawni'r lefel hon o gymharu â'r dysgwyr hynny nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch rhwng dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yn parhau i fod yn rhy eang.


**Ffigur 4: Deilliannau cyfnod allweddol 4 ar gyfer trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg ar gyfer dysgwyr yn ôl darpariaeth anghenion addysgol arbennig[3]**




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru (2017c), Llywodraeth Cymru (2017e)

[3] Gwnaed sawl newid allweddol i fesurau perfformiad cyfnod allweddol 4 ar gyfer 2016-2017, sy'n effeithio ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

**Ffigur 5: Deilliannau cyfnod allweddol 4 ar gyfer trothwy lefel 2 ar gyfer dysgwyr yn ôl darpariaeth anghenion addysgol arbennig[4]**




Ffynonellau: Llywodraeth Cymru (2017c), Llywodraeth Cymru (2017e)

16 Mae Ffigur 5 yn dangos y bu gwelliant bach yng nghyfran y dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni lefel 2, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg, rhwng 2013 a 2017. Fodd bynnag, mae gostyngiad nodedig yng nghyfran y dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni trothwy lefel 2 yn 2017, o gymharu â 2013 ar gyfer yr holl ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig (Ffigur 4).

**Ffigur 6: Deilliannau cyfnod allweddol 4 ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (ddim yn cynnwys y rheiny mewn unedau cyfeirio disgyblion), 2016-2017**

| | Trothwy lefel 1 | Trothwy lefel 2 | Trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg |
|---|---|---|---|
| 2016 | 37% | 7% | 1% |
| 2017 | 21% | 3% | 2% |

Ffynonellau: Llywodraeth Cymru (2017c), Llywodraeth Cymru (2017f)

17 Mae data Ffigur 6 yn dangos, er bod cyfran y dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, wedi gwella ychydig yn 2017, bu gostyngiad o 16 pwynt canran a phedwar pwynt canran yn y gyfran yn cyflawni trothwy lefel 1 neu lefel 2 yn y drefn honno o gymharu â ffigurau 2016. Mae'r arfer o gasglu deilliannau dysgwyr ar gyfer

[4] Gwnaed sawl newid allweddol i fesurau perfformiad cyfnod allweddol 4 ar gyfer 2016-2017, sy'n effeithio ar gymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

dysgwyr sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn newydd a cheir cymhariaeth ddata ar gyfer blwyddyn yn unig. Nid yw dysgwyr sy’n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cyflawni cystal â’u cyfoedion mewn ysgolion. Er bod llawer ohonynt yn cael cyfleoedd defnyddiol i astudio cyrsiau galwedigaethol, a bod hyn yn eu cymell i wneud yn dda, nid oes digon ohonynt yn cyflawni i’w llawn botensial.

18 Mae dysgwyr sy’n blant sy’n derbyn gofal yn cyflawni cryn dipyn yn llai o gymwysterau na’u cyfoedion yng nghyfnod allweddol 4 hefyd. Yn 2017, er bod 69% o ddysgwyr wedi cyflawni trothwy lefel 1 a 21% wedi cyflawni trothwy lefel 2, dim ond 12% ohonynt a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg (Llywodraeth Cymru, 2018). Ar gyfer trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, mae hyn yn ostyngiad yn ôl i’r perfformiad a gyflawnwyd yn 2013. Ym mhob cyfnod allweddol mewn addysg, nid yw dysgwyr sy’n blant sy’n derbyn gofal yn cyflawni cystal â’u cyfoedion ac mae bron i draean ohonynt yn gadael gofal heb unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i’w hanghenion addysgol arbennig, y diffyg sefydlogrwydd mewn lleoliadau, ac i’r newidiadau i’w lleoliad addysgol.

**Ffigur 7: Deilliannau cyfnod allweddol 4 ar gyfer dysgwyr sy’n blant sy’n derbyn gofal, 2013-2017**

| | Trothwy lefel 1 | Trothwy lefel 2 | Trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg, Cymraeg mamiaith a mathemateg |
|---|---|---|---|
| 2013 | .. | .. | 12% |
| 2014 | .. | .. | 17% |
| 2015 | .. | .. | 18% |
| 2016 | .. | .. | 23% |
| 2017 | 69% | 21% | 12% |

Mae .. yn dynodi nad oes data ar gael

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2018)

19 Mae colegau addysg bellach yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) i nodi a mesur cynnydd a chyflawniadau dysgwyr o feysydd amddifadedd. Mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer colegau addysg bellach yn dangos, er bod y gyfradd y mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn cwblhau eu cyrsiau’n llwyddiannus wedi gwella dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae islaw cyfartaledd Cymru gyfan o hyd, ac islaw cyfraddau llwyddo dysgwyr o’r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Hefyd, er gwaethaf y gwelliant, mae’r bwlch rhwng cyfraddau llwyddo dysgwyr o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig a chyfartaledd Cymru gyfan, a dysgwyr o’r ardaloedd lleiaf difreintiedig, wedi ehangu dros yr un cyfnod hwn.

**Ffigur 8: Cyfraddau llwyddo[1] ar gyfer dysgwyr mewn colegau addysg bellach yn erbyn llwyddiant dengraddau MALlC, 2013-2017**

| Dengradd MALlC | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% mwyaf difreintiedig | 83.6% | 83.7% | 84.3% | 83.7% | 85.9% |
| 10-20% mwyaf difreintiedig | 83.8% | 84.7% | 84.9% | 84.6% | 85.8% |
| 20-30% mwyaf difreintiedig | 83.6% | 84.9% | 84.9% | 84.7% | 85.7% |
| 30-40% mwyaf difreintiedig | 83.8% | 86.0% | 84.6% | 85.4% | 86.1% |
| 40-50% mwyaf difreintiedig | 84.0% | 85.8% | 85.7% | 86.0% | 86.3% |
| 40-50% lleiaf difreintiedig | 84.1% | 86.1% | 85.9% | 86.3% | 86.6% |
| 30-40% lleiaf difreintiedig | 84.6% | 86.4% | 86.5% | 86.3% | 86.5% |
| 20-30% lleiaf difreintiedig | 85.7% | 87.0% | 86.5% | 87.3% | 87.6% |
| 10-20% lleiaf difreintiedig | 86.3% | 88.4% | 86.5% | 88.1% | 87.3% |
| 10% lleiaf difreintiedig | 84.9% | 87.5% | 88.1% | 88.5% | 88.1% |
| **Cymru Gyfan** | **84%** | **84%** | **86%** | **86%** | **86%** |

[1] (Nifer y gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd ac a gwblhawyd wedi’i rhannu â nifer y gweithgareddau dysgu a derfynwyd)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017b)

20 Mae cyfran y bobl ifanc sy’n aros mewn addysg a hyfforddiant ar ôl Blwyddyn 11 wedi dangos gwelliant cyson ers cyflwyno’r fframwaith llwybrau dysgu. Mae nifer y bobl ifanc sy’n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 y mae’n hysbys nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) wedi gostwng o 4.2% yn 2012 i 2.0% yn 2016 (Llywodraeth Cymru, 2017g). Nid yw’n glir faint o’r gwelliant hwn sydd wedi digwydd o ganlyniad i gyflwyno’r fframwaith llwybrau dysgu. Mae mentrau eraill, fel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2013) ar lefel genedlaethol, a mentrau ymddygiad, cymorth a phresenoldeb a gyflwynwyd gan ysgolion, i gyd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn yn niferoedd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

## Darpariaeth i ddysgwyr

### Cynllunio'r cwricwlwm

21 At ei gilydd, mae ysgolion yn cynllunio cwricwla sy'n bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009). Maent yn cynnig ystod ddigon eang o bynciau ac yn monitro cyflawniad a chynnydd dysgwyr. Mae dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn cael yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm â'u cyfoedion. Yn ddiweddar, mae ystod yr opsiynau a gynigir i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 wedi mynd yn llai o ganlyniad i'r cynnydd mewn amser gwersi a neilltuir i'r pynciau craidd, sef Saesneg/Cymraeg a mathemateg. Yn ychwanegol, mae ysgolion yn ei chael yn anodd darparu pynciau opsiwn lle mae llai nag wyth o ddysgwyr yn dewis pwnc penodol ac mae hyn yn tueddu i gael effaith anghymesur ar gyrsiau galwedigaethol.

22 Mae'r dewis o gyrsiau galwedigaethol mewn rhai ysgolion yn gyfyngedig, gan gynnwys ar lefel 1. Yn ychwanegol, mae'r opsiynau ar gyfer cyrsiau lefel 1 mewn colegau yn lleihau wrth i gyrsiau lefel 2 a 3 ddod yn feincnod. Lle ceir cyrsiau lefel 1, mae'r rhain yn tueddu i fod yn generig, fel cyrsiau medrau adeiladu, yn hytrach nag ar gyfer masnachau penodol, er enghraifft gwaith plymer neu osod systemau trydan. I ddysgwyr sy'n agored i niwed, sy'n aml yn dibynnu ar gyrsiau lefel 1 i'w helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu, mae hyn yn lleihau'r opsiynau a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt. Mae rhai colegau'n ailgyfeirio dysgwyr lefel mynediad a lefel 1 at ddarpariaeth dysgu yn y gwaith arall, fel rhaglenni ymgysylltu neu hyfforddeiaeth i leihau effaith o'r fath.

23 Mae rhai ysgolion, lle na all y cwricwlwm fodloni anghenion disgyblion unigol sy'n agored i niwed, yn aml yn cydweithio'n dda â cholegau addysg bellach a darparwyr eraill i greu llwybrau dysgu pwrpasol ac yn cynnig dewis ehangach o opsiynau dysgu sy'n bodloni gofynion Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009). Fodd bynnag, mae cydweithio rhwng ysgolion a cholegau'n parhau i amrywio ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae ysgolion 11-18 yn rhoi gormod o bwyslais ar hyrwyddo parhad addysg dysgwyr i'w chweched dosbarth yn hytrach nag archwilio'n llawn ystod yr opsiynau sydd ar gael fel cyrsiau academaidd, technegol neu alwedigaethol mewn colegau addysg bellach neu ddarparwyr eraill.

24 Mae colegau addysg bellach wedi'u lleoli'n addas mewn llawer o ardaloedd ledled Cymru, ac mae lleiafrif ohonynt yn cynnig ystod o opsiynau i ysgolion ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed, yn enwedig cyrsiau galwedigaethol. Fodd bynnag, mae lleoedd ar gyfer y dysgwyr hyn yn fwy cyfyngedig na lleoedd ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed, o ganlyniad i'r galw am leoedd mewn gweithdai a salonau. Er bod yr opsiynau ar gael, mae rhai dysgwyr sy'n agored i niwed yn amharod i deithio o'u lleoliad addysgol arferol ac mae hyn yn cyfyngu ymhellach ar y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Yn ychwanegol, mae ysgolion yn wynebu heriau â chost teithio i safleoedd coleg ac o ran gwneud trefniadau sy'n caniatáu ar gyfer teithio yn ogystal ag amser gwersi.

25 Mewn ysgolion, y llwybrau dysgu mwyaf effeithiol ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed yn aml yw'r rheiny lle mae cydweithio rhwng cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, y rhieni, y dysgwr, ac asiantaethau proffesiynol fel swyddogion

iechyd a Gyrfa Cymru. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ystod eang o gyngor sy’n cynnwys ystyriaethau gyrfaoedd, addysg, personol, iechyd a chymdeithasol.

26 Bron ym mhob coleg, mae arweinwyr yn cynllunio’r cwricwlwm yn dda ac yn cynnig ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol ar lefelau sy’n rhoi hyblygrwydd a dewis i ddysgwyr. Maent yn monitro cynnydd dysgwyr yn effeithlon, ac yn mynd ati’n gyflym i nodi a chynorthwyo’r rheiny sydd mewn perygl o dynnu’n ôl o gyrsiau.

27 Ers cyflwyno Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009), mae cyfran y dysgwyr 14 i 16 oed sy’n manteisio ar ddarpariaeth mewn colegau addysg bellach wedi gostwng yn gyson. Mae’n debyg mai’r rheswm am hyn yw bod llawer o ysgolion wedi buddsoddi mewn cyfleusterau ac mewn staff i gyflwyno mwy o gyrsiau galwedigaethol ar safle’r ysgol. [5]

28 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a phob un o’r colegau yn cynllunio sesiynau ymyrraeth a chymorth i wneud yn siŵr fod yr effaith ar ddysgwyr yn elwa ar eu cwricwlwm arferol yn cael ei lleihau i’r eithaf. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn tynnu dysgwyr o wersi pynciau nad ydynt yn bynciau craidd ac yn amrywio amseroedd y tynnu allan i leihau’r tarfu ar ddysgu. Mae bron pob un o’r ysgolion uwchradd yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn addasu’r cwricwlwm ar gyfer y dysgwyr hyn yn dda trwy’r broses adolygu flynyddol.

29 Er eu bod yn cael yr un cyfle i elwa ar ddewisiadau’r cwricwlwm, mae ysgolion yn cofrestru dysgwyr sy’n agored i niwed ar gyfer llai o gymwysterau na’u cyfoedion, ar gyfartaledd. At ei gilydd, caiff dysgwyr sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a’r rheiny y nodwyd bod ganddynt angen addysgol arbennig eu cofrestru ar gyfer dau gymhwyster TGAU yn llai na dysgwyr nad oes ganddynt angen addysgol arbennig ac nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim (Llywodraeth Cymru 2017c, 2017f). I rai dysgwyr, gallai hwn fod yn benderfyniad priodol, sy’n eu galluogi i gyflawni ble maent fwyaf tebygol o wneud yn dda a chanolbwyntio ar bynciau lle maent yn fwy medrus neu hyderus. Fodd bynnag, i’r dysgwyr hyn, nid yw’r dewis ehangach o bynciau a gynigir trwy’r mesur wedi arwain at ddeilliannau a chyflawniadau gwell o reidrwydd.

30 Mae dysgwyr sy’n agored i niwed yn fwy tebygol o gael eu cofrestru gan ysgolion ar gyfer cymwysterau’r Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg (BTEC) na’u cyfoedion (Llywodraeth Cymru 2017c, 2017f). Mae hyn yn aml yn ddewis priodol sy’n gweddu i’w diddordebau a’u huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn y defnydd o BTEC yn 2015-2016 ar gyfer pob grŵp lle bu cynnydd cyfatebol mewn cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU. Mae’r gostyngiad hwn yn dangos bod dewis y cyrsiau a gynigir yn aml yn cael ei ddylanwadu gan y modd y maent yn cyfrannu at ddangosyddion perfformiad ar gyfer y darparwr yn hytrach na gan mai dyma’r dewis gorau yn anochel ar gyfer dysgwyr unigol.

31 Pan fydd dysgwyr yn ei chael yn anodd ymdopi mewn ysgolion prif ffrwd, ac nid yw’r cymorth a ddarperir wedi bod yn llwyddiannus, mae awdurdodau lleol yn tynnu’r

dysgwyr hyn o'r ysgol. Caiff llawer ohonynt eu rhoi mewn UCDau, sy'n briodol. Mae rhai o'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd da yn amgylchedd mwy cefnogol yr UCD gyda darpariaeth deilwredig sydd wedi'i chynllunio i fodloni eu hanghenion penodol. Er nad oes rhaid i UCDau ddarparu cwricwlwm llawn, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig cwricwlwm sylfaenol sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg, addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, caiff y cwricwlwm cenedlaethol ei ddatgymhwyso ar gyfer UCDau a gallai hyn olygu nad yw dysgwyr yn derbyn eu hawl i ddewis ehangach o bynciau o dan y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru).

32 Er bod llawer o ddysgwyr mewn UCDau yn dilyn opsiynau galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod y pynciau y mae'n rhaid iddynt ddewis o'u plith yn aml yn gyfyngedig ac yn amrywio'n fawr rhwng UCDau. Pan fydd gan ddysgwyr gofrestriad deuol mewn UCD ac ysgol prif ffrwd, mae llawer o'r UCDau yn cysylltu'n dda â'r ysgol i alluogi'r dysgwr i barhau â'i lwybrau dysgu. Yn yr achosion hyn, mae'r ysgol yn darparu deunydd ac ymarferion darllen priodol ar gyfer y dysgwr i'w helpu i ddal i fyny â'r gwaith tra bydd yn yr UCD. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, mae gwaith ac adnoddau o'r ysgol yn araf yn cyrraedd dysgwyr mewn UCDau. O ganlyniad, nid yw llawer o'r dysgwyr hyn yn cyflawni eu potensial nac yn ennill y cymwysterau y maent yn abl i'w cyflawni.

33 Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal yr un cyfleoedd â'u cyfoedion o ran cael cyfle i elwa ar gwricwlwm eang a darpariaeth cymorth i'w helpu i gyflawni eu potensial. Fodd bynnag, mae deilliannau dysgu cadarnhaol ar gyfer y dysgwyr hyn yn ddibynnol ar gael sefydlogrwydd mewn lleoliadau addysgol. Pan fydd lleoliadau maethu'n newid, gallai'r plant hyn gael eu symud y tu allan i ddalgylch eu hysgol bresennol a therfir yn aml ar eu llwybrau dysgu. Yn aml, mae angen cymorth emosiynol ychwanegol arnynt, ac mae'r amser sydd ei angen ar gyfer hyn yn cyfyngu ar yr opsiynau cwrs sydd ar gael iddynt. Mewn rhai awdurdodau lleol, ni roddir ystyriaeth ddigonol i anghenion addysgol yr unigolyn ifanc, gan fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i leoliadau maethu.

# Cymorth i ddysgwyr

## Cymorth personol

34 Mae bron pob un o’r ysgolion yn darparu cymorth i helpu dysgwyr i oresgyn sefyllfaoedd personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol a allai eu rhwystro rhag dysgu neu’u hatal rhag cyflawni eu potensial. Mae cymorth personol yn helpu dysgwyr i ddod o hyd i ffyrdd o oresgyn y rhwystrau rhag dod yn ddysgwyr annibynnol.

35 Bron ym mhob ysgol uwchradd, y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol i ddysgwyr sy’n agored i niwed yw’r agwedd gryfaf ar gymorth i ddysgwyr. Mae gan lawer o ysgolion systemau effeithiol i gyflwyno cymorth personol. Mae staff yn gweithio’n dda gydag asiantaethau eraill i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau a gyflwynir gan amgylchiadau cartref neu gan heriau corfforol neu iechyd meddwl.

36 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio systemau asesu ac olrhain i nodi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol. Pan na fydd dysgwyr yn cyflawni cystal ag y gallent neu’u bod ar ei hôl hi â’u gwaith, maent yn darparu cymorth trwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys o gynorthwywyr ystafell ddosbarth ac adran cymorth dysgu’r ysgol. Pan fydd cymorth ychwanegol yn llai effeithiol, mae hyn gan amlaf o ganlyniad i systemau olrhain a nodi gwael, yn hytrach nag ansawdd y cymorth a ddarperir.

37 Mae colegau addysg bellach yn defnyddio ystod eang o asesiadau a gwybodaeth arall am ddarpar ddysgwyr i nodi dysgwyr sy’n agored i niwed yn gynnar. Mae staff cymorth yn defnyddio amrywiaeth helaeth o strategaethau ymyrraeth, gan gynnwys cymorth yn y dosbarth, cymorth y tu allan i’r dosbarth, a chymorth un i un a grŵp i wneud yn siŵr fod pob dysgwr yn cael y cyfleoedd gorau i lwyddo.

38 Mae bron pob un o’r dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth cynlluniedig wrth iddynt symud o’r ysgol i goleg addysg bellach. Mae colegau’n gweithio’n dda mewn partneriaeth ag ysgolion, asiantaethau a Gyrfa Cymru i goladu gwybodaeth sy’n eu galluogi i gynnig dewisiadau academaidd neu alwedigaethol addas i ddysgwyr.

39 Mae ansawdd y cymorth personol i ddysgwyr sy’n cael eu haddysgu mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn dda ar y cyfan. Mae dysgwyr yn elwa ar berthnasoedd meithringar priodol gyda staff sy’n meddu ar ddealltwriaeth gadarn o’u hanghenion. Mae dysgwyr yn datblygu medrau mewn deall eu rhwystrau rhag addysg ac yn dysgu sut i reoli eu hemosiynau a’u hymddygiad. O ganlyniad, maent yn datblygu eu gallu i ddysgu.

40 Yn gyffredinol, mae’r cymorth i ddysgwyr sy’n blant sy’n derbyn gofal yn gryf mewn llawer o ysgolion ac yn gryf iawn mewn ysgolion arbennig. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion arbennig staff sydd wedi’u hyfforddi’n dda mewn testunau fel ymlyniad, agweddau ar ddatblygiad plant, iechyd emosiynol ac anogaeth. Mae ychydig iawn o ysgolion arbennig wedi cyflwyno hyfforddiant ar gyfer pob un o’r staff ar brofedigaeth, trawma a cholled, ond nid oes gan staff yn y rhan fwyaf o ysgolion arbennig wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o’r agweddau penodol hyn ar gymorth.

## Anogwyr dysgu

41 Mae anogwyr dysgu wedi bod yn nodwedd bron ym mhob ysgol uwchradd a choleg addysg bellach ers gofynion y Mesur. Rôl yr anogwr dysgu yw arwain, cynorthwyo a mentora dysgwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus, nodi nodau dysgu a bod yn ddysgwyr annibynnol. Dylai anogaeth ystyried anghenion yr unigolyn ifanc a dylid teilwra darpariaeth yn unol â'i anghenion.

42 Mewn llawer o ysgolion a cholegau, mae'r anogaeth ddysgu a ddarperir gan anogwyr dysgu dynodedig yn effeithiol ar y cyfan ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, a'r rheiny o grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Dros gyfnod, maent yn helpu dysgwyr i wella eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u perfformiad. Pan fydd gan anogwyr dysgu rôl cynorthwyo dysgwyr, mae dysgwyr o grwpiau sy'n agored i niwed yn cyflawni'n dda.

43 Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yr anogwyr dysgu sydd ar gael wedi gostwng o ganlyniad i ostyngiad yn y cyllid sydd ar gael. Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi gwneud iawn am hyn trwy olrhain dysgwyr sy'n agored i niwed yn ofalus a thrwy ganolbwyntio mwy ar fodloni anghenion yn well trwy gymorth dysgu cyffredinol.

## Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd

44 Mae arolygiadau ac adroddiadau thematig diweddar (Estyn, 2013; Estyn, 2014; Estyn, 2015a; Estyn 2015b; Estyn, 2016a; Estyn, 2016b; Estyn 2017b) yn dangos bod ansawdd ac effaith cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd yn amrywio rhwng ysgolion. Mewn tua hanner yr ysgolion, darperir cyfweliadau gyrfaoedd unigol gan Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn unig erbyn hyn, neu'r rheiny y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio ag ymgymryd ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n darparu ystod helaeth o gymorth ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys gwybodaeth am brentisiaethau, er enghraifft. Yn aml, mae hyn am nad yw athrawon yn gwybod digon am y llwybr hwn. Mewn rhai ysgolion, ni chaiff cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd ar ddewisiadau ac opsiynau pwnc ar gyfer y dyfodol eu cydlynu'n ddigon da ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed yng nghyfnod allweddol 4. I rai dysgwyr, caiff hyn effaith niweidiol ar eu gallu i ddewis opsiynau pwnc sy'n bodloni eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

45 Caiff llawer o golegau gymorth gwerthfawr gan gynghorwyr Gyrfa Cymru i helpu eu dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed i ddewis cyrsiau priodol a pherthnasol. Yn ychwanegol, mae lleiafrif o golegau hefyd yn cyflogi arbenigwyr dynodedig i roi arweiniad ar yrfaoedd. Fodd bynnag, mae adroddiad Estyn ar gynnydd a chyrchfannau dysgwyr coleg mewn darpariaeth medrau byw yn annibynnol (Estyn, 2017a) yn dangos nad yw cynllunio ar gyfer dyfodol y dysgwyr hyn ar ôl iddynt adael y coleg, yn dechrau'n ddigon cynnar. Mae cynllunio cynnar ar gyfer y dysgwyr hyn sy'n agored i niwed yn canolbwyntio gormod ar y cam nesaf mewn addysg yn hytrach nag ar gyrchfan tymor hwy. Mae hyn yn golygu nad yw cyngor ar hyd teithiau addysgol dysgwyr bob amser yn ddigon cywir iddynt ganolbwyntio ar y medrau penodol fydd eu hangen arnynt na'r cyrsiau a'r pynciau gorau iddyn nhw eu hastudio.

46 Mae Gyrfa Cymru yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad parhaus i ddysgwyr mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys UCDau. Fodd bynnag, prin yw’r dylanwad a gaiff Gyrfa Cymru ar y cwricwlwm a’r llwybrau dysgu ar gyfer y dysgwyr hyn. O ganlyniad, mae effaith y cyngor a’r arweiniad y maent yn eu darparu yn gyfyngedig, ac mae dysgwyr yn aml yn dewis o blith ystod gyfyng o opsiynau sydd ar gael, yn hytrach na dilyn llwybr dysgu a dilyniant sy’n briodol a chynlluniedig.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Ysgolion a cholegau

47 Mae lleiafrif o ysgolion yn cydlynu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn dda trwy ddull ysgol gyfan. Mae'r ysgolion hyn yn targedu anogaeth ddysgu a chymorth personol ar gyfer y dysgwyr sydd eu hangen fwyaf a gallant ddangos yr effaith trwy ddadansoddi deilliannau dysgwyr. Mae staff yn yr ysgolion hyn wedi'u hyfforddi'n dda, a gwnânt ddefnydd effeithiol o bartneriaid allanol a threfniadau cydweithredol i gefnogi'r ddarpariaeth.

48 Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y cyfeiriad strategol ar gyfer cymorth dysgu yn amrywio rhwng ysgolion. Mewn rhai ysgolion, ni chaiff gwahanol elfennau'r gwasanaethau cymorth i ddysgwyr eu cydlynu'n dda ac nid ydynt yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Er bod gan lawer o ysgolion systemau olrhain i fonitro cynnydd dysgwyr a'r rheiny sydd angen cymorth ychwanegol, nid yw lleiafrif o ysgolion yn arfarnu effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ac ymyriadau. Yn benodol, ni chaiff cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd eu cydlynu na'u holrhain yn ddigon da. Nid oes dull cynlluniedig i gynghori dysgwyr ar ddewisiadau ac opsiynau pwnc ar gyfer astudio yn y dyfodol ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11. Yn ychwanegol, nid oes digon o ysgolion yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion (GDD) i gynorthwyo dysgwyr mwy abl i gyflawni eu llawn botensial.

49 Bron ym mhob coleg, mae uwch reolwyr yn monitro perfformiad staff cymorth dysgu yn dda. Mae ganddynt systemau gwybodaeth reoli sefydledig sy'n olrhain presenoldeb, cynnydd a pherfformiad dysgwyr. Mae uwch reolwyr y coleg yn sicrhau ansawdd sesiynau tiwtorial lle mae athrawon yn cyfarfod â dysgwyr unigol i drafod eu perfformiad a'u cynnydd. Mae athrawon yn defnyddio data yn dda i gytuno ar dargedau gwella gyda dysgwyr ac yn eu cofnodi ar gynlluniau dysgu unigol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Defnyddiant sesiynau tiwtorial i helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau cynllunio gyrfa i lywio eu dyfodol y tu hwnt i'r coleg.

50 Mae gan bron bob coleg bolisïau a gweithdrefnau cadarn i staff ymyrryd yn brydlon os bydd patrymau'n dod i'r amlwg sy'n dangos bod angen cymorth ar unigolion. Mae pob coleg yn monitro perfformiad dysgwyr sy'n agored i niwed, fel dysgwyr ethnig lleiafrifol a dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal, yn dda. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt systemau da ar waith i sicrhau bod cymorth targedig ar gyfer y grwpiau hyn yn effeithiol.

### Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

51 Er bod monitro ac olrhain cynnydd a chyflawniadau dysgwyr sy'n agored i niwed yn rhan sefydledig o waith ysgolion a cholegau, yr awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb statudol cyffredinol am y dysgwyr hyn. Mae rôl y consortia rhanbarthol i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol o ran y dysgwyr hyn yn amrywio ac nid oes arfer gyffredin na chyson.

52 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn comisiynu'r consortia i ddarparu cymorth a her i ysgolion trwy waith yr ymgynghorwyr her. Mae rhan o'r rôl hon yn cynnwys holi am y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ar gyfer eu cyfoedion. Mae ymgynghorwyr her yn monitro pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio grantiau fel y grant datblygu disgyblion (GDD) a'r grant gwella addysg (GGA). Yn ddiweddar, mae consortia rhanbarthol wedi penodi swyddogion sydd â chyfrifoldeb am wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae prosesau ar gyfer monitro ac olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr sy'n agored i niwed ac adrodd am y canfyddiadau i'r awdurdod lleol yn llai sefydledig.

53 Caiff data ysgol gyfan yng nghyfnod allweddol 4 ei fonitro rhwng yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, mae Llywodraeth Cymru yn cofnodi a dadansoddi data cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys yn ôl cyfnod angen addysgol arbennig, yn effeithiol.

54 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn olrhain cynnydd dysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal yn ganolog ac mae ganddynt brosesau cadarn i fonitro eu cynnydd trwy gydlynwyr plant sy'n derbyn gofal neu arweinwyr cyflawni. Mae'r arfer o olrhain rhai dysgwyr sy'n cael eu gosod y tu allan i'r sir yn llai cadarn.

55 Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr 14-19 oed yn ymddangos yng nghynlluniau strategol allweddol awdurdodau lleol fel y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (Llywodraeth Cymru, 2013). Nid yw'r cynlluniau hyn bob amser yn arwain yn ddigon da at bolisi effeithiol i wella arferion ar draws yr holl sefydliadau sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau'n canolbwyntio ar wella agweddau yn unig ar addysg heblaw yn yr ysgol, fel UCDau, gwaharddiadau, presenoldeb a nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH).

56 Mae awdurdodau lleol wrthi'n addasu llawer o'u harferion ar gyfer darpariaeth 14 -19 yn dilyn newidiadau i gyllid. Mae gostyngiad yn nifer y swyddi ar gyfer swyddogion 14-19 ac, mewn rhai awdurdodau lleol, mae cyfrifoldebau'r rôl hon wedi cael eu dosbarthu rhwng swyddogion eraill. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith y newidiadau hyn.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd o arolygiadau, ymweliadau cyswllt awdurdodau lleol ac arolygon thematig dros y tair blynedd ddiwethaf.

Estyn (2013) *Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol.* Caerdydd: Estyn.

Estyn (2014) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed.* Caerdydd: Estyn

Estyn (2015a) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed.* Caerdydd: Estyn

Estyn (2015b) *Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda.* Caerdydd: Estyn

Estyn (2016a) *Addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Estyn

Estyn (2016b) *Codi cyrhaeddiad, cyflawniadau a dyheadau plant sy'n derbyn gofal – adroddiad arfer orau.* Caerdydd: Estyn

Estyn (2017a) *Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach*. Caerdydd: Estyn

Estyn (2017b) *Gyrfaoedd – Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn

Estyn (2018) *Cefnogi disgyblion mwy abl a thalentog: Sut orau i herio a meithrin disgyblion mwy abl a thalentog: cyfnodau allweddol 2 i 4.* Caerdydd: Estyn

Cyfrannodd y consortia rhanbarthol canlynol at yr ymgynghoriad ar gyfer yr adroddiad hwn:

Consortiwm ERW
Consortiwm GCA
Consortiwm Gogledd Cymru
Consortiwm Canolbarth y De

Cyfrannodd yr awdurdodau lleol canlynol at yr ymgynghoriad ar gyfer yr adroddiad hwn:

Awdurdod Lleol Ynys Môn
Awdurdod Lleol Merthyr Tudful
Awdurdod Lleol Caerffili
Awdurdod Lleol Caerdydd

# Geirfa

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion addysgol arbennig |
| AB | Addysg bellach |
| CDGOC | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| CydADY | Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol |
| EOTAS | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| GDD | Grant datblygu disgyblion. Mae’r grantiau hyn yn darparu cymorth ariannol i helpu mynd i’r afael ag effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad. |
| GGA | Grant gwella addysg. Sefydlwyd y grant ym mis Ebrill 2015, ac mae’n darparu cymorth ariannol i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol i wella deilliannau addysgol ar gyfer pob dysgwr. |
| Llwybr Dysgu | Profiad dysgu pob unigolyn rhwng 14 ac 19 oed. Mae’n cynnwys Craidd Dysgu a’r dewis o opsiynau y mae’r dysgwr yn dewis o’u plith, gyda chymorth ac arweiniad gwybodus. |
| MALlC | Mynegai amddifadedd lluosog Cymru |
| NACH | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| PDG | Plant sy’n derbyn gofal |
| TGAU | Tystysgrif gyffredinol addysg |
| UCD | Uned cyfeirio disgyblion |
| Yn gymwys am PYDd | Yn gymwys am brydau ysgol am ddim |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/pdfs/mwa_20090001_en.pdf?timeline=true [Defnyddiwyd 3 Gorffennaf 2017]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012) *Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s7574/Ymchwiliad%20i%20Weithredu%20Mesur%20Dysgu%20a%20Sgiliau%20Cymru%202009%20-%20Adroddiad%20-%20Mai%202012.pdf [Defnyddiwyd 3 Gorffennaf 2017]

Estyn (2013) *Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Gweithio%20gyda%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2n%20gilydd%20i%20fynd%20i%C3%A2%E2%82%AC%E2%84%A2r%20afael%20ag%20effaith%20tlodi%20ar%20gyflawniad%20addysgol%20-%20Rhagfyr%202013.pdf [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2016]

Estyn (2014) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Gwasanaethau%20cymorth%20dysgwyr%20i%20ddisgyblion%2014-16%20oed%20-%20Mai%202014.pdf [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2016]

Estyn (2015a) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr mewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr 16-19 oed.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Learner%20support%20services%20in%20further%20education%20colleges%20for%20learners%20aged%2016-19%20-%20CY.pdf [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2016]

Estyn (2015b) *Addysg heblaw yn yr ysgol: arolwg arfer dda.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Addysg_Heblaw_yn_yr_Ysgol_arolwg_arfer_dda_-_Mehefin_2015.pdf [Defnyddiwyd 22 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016a) *Addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Estyn [Ar-lein] Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/EOTAS%20cy.pdf [Defnyddiwyd 21 Rhagfyr 2016]

Estyn (2016b) *Codi cyrhaeddiad, cyflawniadau a dyheadau plant sy'n derbyn gofal – adroddiad arfer orau.* Caerdydd: Estyn Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/LAC%20Remit%20report%20cy_0.pdf [Defnyddiwyd 22 Rhagfyr 2016]

Estyn (2017a) *Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach*. Caerdydd: Estyn [Ar-lein]  Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Learner%20progress%20and%20destinations%20in%20FE%20%28CY%29.pdf [Defnyddiwyd 9 Medi 2017]

Estyn (2017b) *Gyrfaoedd – Gweithredu’r fframwaith gyrfaoedd a byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.* Caerdydd: Estyn [Ar-lein]  Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Careers%20-%20Thematic%20survey%20report%20cy.pdf  [defnyddiwyd 9 Medi 2017]

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Cynllun Gweithredu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf [Defnyddiwyd 3 Gorffennaf 2017]

Llywodraeth Cymru (2016a) *Cyfrifiad Plant mewn Angen, Cymru.* Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2016b) *Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.* Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2017a) *Absenoliaeth o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/absenteeism-pupil-characteristics/?lang=cy [Defnyddiwyd 5 Gorffennaf 2017]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Cofnod presenoldeb disgyblion.* Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2017c) *Cyfrifiad Lefel Disgyblion Ysgolion Blynyddol.* Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2017d) *Dangosyddion Allweddol Cyfnod Allweddol 4 fesul hawl i Brydau Ysgol Am Ddim, fesul rhyw.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/ks4coreindicators-by-freeschoolmealentitlement-gender [Defnyddiwyd 12 Chwefror 2018]

Llywodraeth Cymru (2017e) *Cyflawniad Academaidd yn ôl Nodweddion Disgyblion, 2016.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2017/170131-academic-achievement-pupil-characteristics-2016-cy.pdf [Defnyddiwyd 12 Chwefror 2018]

Llywodraeth Cymru (2017f) *Cronfa Ddata Arholiadau Cymru.* Heb ei chyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2017g) *Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?lang=cy [Defnyddiwyd 12 Chwefror 2018]

Llywodraeth Cymru (2018) *Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru, 2017 (ystadegau arbrofol).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/statistics-and-research/wales-children-receiving-care-support-census/?lang=cy